# Minutes

## Cabinet

| | |
|---|---|
| Date: | Dydd Mercher, 5 Mai 2021 |
| Time: | 4.00 pm |
| Present: | Councillors J Mudd (Cadeirydd), Councillor R Jeavons, P Cockeram, D Harvey, D Mayer, Councillor R Truman, D Davies and M Rahman |
| Apologies: | Councillors G Giles |

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Councillor Gail Giles

2 **DATGAN BUDDIANNAU**

Dim byd amlwg.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Cofnodion o 7 Ebrill – nodwch y cadarnheir eu bod yn gofnod cywir.

4 **ADOLYGIAD POLISI: POLISI CANMOLIAETH, SYLWADAU A CHWYNION A PHOLISI GWEITHREDOEDD ANNERBYNIOL GAN ACHWYNWYR**

Yr Arweinydd i gyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet.

Roedd polisi clir wedi bod ar waith gan y Cyngor ers nifer o flynyddoedd sy'n esbonio sut mae'n rheoli adborth gan drigolion. Bu nifer o newidiadau'n ddiweddar i ddeddfwriaeth allweddol sydd wedi effeithio ar sut mae'r Cyngor yn gwrando ar drigolion ac yn dysgu ganddynt.

Y prif reswm am y diwygiadau oedd adlewyrchu Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 Ym mis Medi 2020, ysgrifennodd yr Ombwdsmon i bob Awdurdod Lleol yn cadarnhau bod y Datganiad o Egwyddorion, y Broses Trin Cwynion Enghreifftiol a'r Canllawiau a ddiwygiwyd ar waith yn llawn. Gofynnodd yr Ombwdsmon i gyrff cyhoeddus fyfyrio ar sut y mae eu harferion a'u gweithdrefnau yn cydymffurfio â'r canllawiau wedi'u diweddaru a sut y byddent yn sicrhau bod pob cwyn yn cael ei chofnodi'n briodol.

Roedd y prif newidiadau arfaethedig i'r polisi yn cynnwys:

- Newidiadau i'r trefniadau adrodd a monitro.
- Diffiniadau wedi'u diweddaru o Rolau a Chyfrifoldebau ar gyfer rheoli cwynion.
- Mwy o eglurder ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer rheoli cwynion ynglŷn â phartneriaid a darparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd gan y Cyngor i ddarparu gwasanaethau. A;
- Mwy o gyfeirio at wasanaethau eiriolaeth a chymorth.

Roedd y trefniadau adrodd a monitro wedi'u diweddaru hefyd yn adlewyrchu gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021. Roedd swyddogaeth statudol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newydd yn cynnwys adolygu ac asesu gallu'r Cyngor i ymdrin â chwynion yn effeithiol, ac i adrodd ar argymhellion a'u gwneud yn hyn o beth.

Yn ogystal â gofynion yr Ombwdsmon, bu newidiadau eraill i ddeddfwriaeth yn ymwneud â thrin cwynion a adlewyrchir yn y polisi wedi'i ddiweddaru. Yn eu plith roedd:

- Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018
- Herio Bwlio - Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllawiau statudol i awdurdodau lleol (2019).

Roedd y newidiadau hyn i'r polisi yn ymwneud â'i gwneud yn glir i drigolion sut yr ymdrinnir â chwynion yn y meysydd penodol hyn, gan gynnwys cyfeirio at gymorth a chefnogaeth bellach.

Bu rhai mân newidiadau hefyd i'r polisi Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr. Er bod y Cyngor wedi ymrwymo i ymdrin â phob cwyn yn deg, yn gynhwysfawr ac yn amserol, nid yw'r Cyngor yn disgwyl i staff oddef ymddygiad camdriniol, sarhaus na bygythiol. Mewn rhai achosion, gallai ymddygiad afresymol hefyd rwystro gwaith ymchwilio i gŵyn yr unigolyn neu gallai greu problemau sylweddol i'r Cyngor o ran adnoddau.

Roedd y polisi'n cadarnhau'r trefniadau sydd ar waith i fynd i'r afael â'r problemau hyn mewn modd cyfrinachol, teg a gwrthrychol drwy fforwm sy'n cyfarfod yn rheolaidd i adolygu'r achosion hyn a chytuno ar unrhyw gamau gweithredu priodol o fewn cylch gwaith y polisi. Roedd y polisi hefyd yn adlewyrchu'r ffaith nad yw pob achos o ymddygiad annerbyniol yn ymwneud â chwynion.

Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried a chymeradwyo'r Polisi Canmoliaeth, Sylwadau a Chwynion diwygiedig, a'r polisi Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr newydd, i'w cyflwyno o 10 Mai 2021 er mwyn bodloni gofynion statudol a deddfwriaethol.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

Dywedodd y Cynghorydd Mayer fod y Cyngor yn dda iawn wrth ymdrin ag unrhyw broblemau sy'n codi a'i bod yn brin iawn i gwynion gael eu huwchgyfeirio i'r ombwdsmon. Ychwanegodd y Cynghorydd Mayer fod y Cynghorydd Cockeram ynghyd ag Aelodau eraill o'r Cabinet yn pryderu mai dim ond cwynion a broseswyd yn y gorffennol ond bod y ffaith y gall y cyhoedd ganmol y Cyngor erbyn hyn yn gam cadarnhaol ymlaen. Anogodd y Cynghorydd Mayer bawb i gofnodi canmoliaeth yn ogystal â chwynion yn y dyfodol.

Canmolodd y Cynghorydd Davies y Cyngor ar fod yn agored ac yn dryloyw a dywedodd fod aelodau'r cyhoedd sydd am gwyno'n cael eu cyfeirio'n glir, yn enwedig mewn perthynas ag asesu cydraddoldeb a Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol.

Cymeradwyodd y Cynghorydd Cockeram y sylwadau blaenorol ac roedd yn falch o weld bod canmoliaeth yn fwy pwysig ar yr agenda a dywedodd fod angen newid y canllawiau i adlewyrchu hyn. Dylid annog staff hefyd i gofnodi canmoliaeth gan y Prif Weithredwr i bob aelod o staff mewn ffordd well.

Adleisiodd y Cynghorydd Truman sylwadau cydweithwyr a chroesawodd y fformat newydd ar gyfer canmoliaeth.

Ychwanegodd y Cynghorydd Rahman fod y polisi yn rhoi'r hawl i bob dinesydd gael ei glywed a'i barchu.  Roedd y Cyngor hwn yn fodlon gwrando ar drigolion ac yn agored ac yn dryloyw.  Roedd adnoddau ar waith nawr ac wrth symud ymlaen byddai'r Cyngor yn dysgu o'u camgymeriadau ac yn gwneud yn well.

Penderfyniad:
Gofynnwyd i'r Cabinet adolygu a chymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r polisïau.

5 **Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM YR YMATEB I COVID-19 A'R ADFERIAD OHONO**

Yr Arweinydd i gyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet.

Rhoddodd yr Adroddiad Cabinet hwn ddiweddariad ar ymateb y Cyngor a'i bartneriaid i argyfwng Covid-19 gan gefnogi'r Ddinas (trigolion a busnesau) i gydymffurfio â'r cyfyngiadau a'r cynnydd presennol yn Nodau Adfer Strategol a Chynllun Corfforaethol y Cyngor.

I Gyngor Casnewydd roedd hwn yn gyfnod digynsail lle'r oeddem wedi wynebu llawer o benderfyniadau anodd, gan weld trigolion a busnesau'n dioddef o effeithiau Covid a'r cyfyngiadau i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.  Nid oedd yr un person heb i'r pandemig hwn wedi effeithio arno.

Mae Cynghorwyr ar draws yr holl bleidiau gwleidyddol, swyddogion a'n partneriaid strategol ym maes iechyd, Casnewydd Fyw, y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir, Newport Norse a darparwyr gwasanaethau eraill wedi dod at ei gilydd i ddatrys materion sydd wedi dod i'r amlwg; gan ddod o hyd i ffyrdd arloesol a newydd o ddarparu ein gwasanaethau, a chefnogi'r rheiny sydd angen ein cymorth.

Roedd y Cyngor hefyd yn gwybod bod mwy y gallem ac y byddem yn ei wneud i gefnogi pobl a busnesau allan o'r argyfwng hwn.

Ymateb y Cyngor i Covid-19 a'r Cynnydd hyd yma:

Ers yr adroddiad blaenorol ym mis Ebrill, llaciwyd rhagor o gyfyngiadau gan alluogi trigolion a busnesau i ddychwelyd yn araf i'r drefn arferol.

Gyda lletygarwch a gweithgareddau awyr agored yn ailagor (bydd lletygarwch dan do yn ailagor ym mis Mai) a busnesau eraill ar agor ers mis Ebrill, mae'n bwysig ein bod yn cefnogi ein busnesau a'n heconomi leol ledled Casnewydd i greu economi gynaliadwy a llwyddiannus ar gyfer y dyfodol.

Parhaodd y rhaglen frechu i symud ymlaen trwy'r grwpiau oedran yng Nghymru gyda dros 1.7 miliwn o bobl bellach wedi cael eu brechiad cyntaf.  Roedd rhywfaint o waith i'w wneud eto ac roedd yr un mor bwysig i bobl rhwng 18 a 39 oed gael eu brechu gan gynnwys ein cymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghasnewydd.

Fodd bynnag, nid oedd hyn yn golygu y gallem ddychwelyd i fywyd fel yr oedd cyn Covid. Fel y gwelsom mewn gwledydd fel Brasil ac India sydd wedi dioddef yn sylweddol, roedd yn bwysig ein bod yn parhau'n wyliadwrus o ran cadw pellter cymdeithasol a bod y rheiny â symptomau, neu eu ffrindiau neu eu teulu, yn cael eu profi, yn hunanynysu ac yn dilyn y canllawiau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Er gwaethaf yr heriau a wynebwyd gennym, parhaodd swyddogion a'n partneriaid i ddarparu gwasanaethau ar draws cymunedau yng Nghasnewydd yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd y Cyngor wedi gweld pa mor wydn a dyfeisgar oedd swyddogion wrth weithio gartref, gofalu am eu plant a pherthnasau ac addysgu gartref, yn ogystal â'r swyddogion, yr athrawon, a'r staff gwasanaethau cymdeithasol hynny a oedd wedi parhau i weithio ar draws

Casnewydd yn casglu gwastraff, yn glanhau ein strydoedd ac yn ymweld â'r bobl fwyaf agored i niwed yn y ddinas ac yn gofalu amdanynt.

Roedd y Cyngor hefyd yn edrych ymlaen, drwy lunio sut y byddai ein gwasanaethau'n cael eu darparu'n gynaliadwy yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar ffyrdd newydd o weithio, a datblygu modelau a fyddai'n galluogi staff a defnyddwyr gwasanaethau i ddefnyddio technoleg a'n hadeiladau'n wahanol.

Yn ystod y mis diwethaf, cyflawnodd y canlynol:

- Ail-agorodd pob ysgol yn llawn ym mis Ebrill.
- Ail-agorodd llyfrgelloedd a Hybiau Cymunedol i alluogi pobl i ddefnyddio llyfrgelloedd a gwasanaethau cymunedol eraill.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

Dywedodd y Cynghorydd Truman fod yr adroddiad yn ymdrin â phopeth a gwelodd pa mor dda y daeth cymunedau at ei gilydd yn ystod y pandemig. Roedd busnesau a phartneriaid hefyd wedi gwneud llawer. Roedd llawer o frechiadau wedi'u rhoi ond roedd angen i Gasnewydd symud ymlaen yn bwyllog. Diolchodd y Cynghorydd Truman i holl ddinasyddion a gweithwyr Casnewydd am eu cefnogaeth barhaus.

Diolchodd y Cynghorydd Cockeram yn fawr i'r gofalwyr maeth sy'n gofalu am blant dan ofal Cyngor Dinas Casnewydd yn ystod y cyfnod hwn.

Diolchodd y Cynghorydd Jeavons i Waste Savers a diolchodd i ddinasyddion Casnewydd am eu hamynedd a'u dealltwriaeth.

Diolchodd y Cynghorydd Rahman i bartneriaid, trigolion a busnesau yng Nghasnewydd sy'n mynd i'r afael â'r pandemig ac i Casnewydd Fyw. Roedd y Cynghorydd Rahman yn falch o weld campfeydd yn ailagor ac o 17 Mai y gobaith oedd agor y maes lletygarwch fel theatrau. Diolchodd y Cynghorydd Rahman hefyd i Rodney Parade am ganiatáu lleoli'r canolfannau profi ar eu tiroedd a diolchodd i staff y Cyngor am eu gwaith caled a'u cyfraniad. Roedd hefyd yn bwysig cynnal cyfyngiadau megis mesurau ymbellhau cymdeithasol a golchi dwylo. Roedd angen i ni wneud ein rhan i sicrhau ein bod yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Diolchodd y Cynghorydd Rahman i'r Arweinydd am gefnogi busnesau gyda grantiau, gan ychwanegu mai Cyngor Dinas Casnewydd oedd un o'r awdurdodau cyntaf i roi'r grantiau hyn.

Yn olaf, diolchodd yr Arweinydd i drigolion, partneriaid a rhanddeiliaid am eu cefnogaeth a diolchodd i'w chydweithwyr yn y Cabinet am gydnabod hyn.

Penderfyniad:
Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad a nododd y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma a'r risgiau yr oedd y Cyngor yn dal i'w hwynebu.

## 6 ADRODDIAD DIWEDDARU BREXIT

Yr Arweinydd i gyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet.

Rhoddodd yr Adroddiad Cabinet hwn ddiweddariad ar gynnydd y trefniadau ar ôl Brexit / masnach ers 31 Rhagfyr 2020.

Gadawodd y Deyrnas Unedig yr Undeb Ewropeaidd a'r Farchnad Sengl ar 31 Rhagfyr 2020 roedd busnesau (mewnforwyr / allforwyr) o'r DU a'r UE bellach yn gorfod cydymffurfio â'r trefniadau tollau newydd.

Ers yr adroddiad diwethaf ym mis Ebrill, lansiodd Cyngor Casnewydd ei dudalen we ar wefan y Cyngor yn cynnig ffordd i elusennau, grwpiau cymunedol lleol, a darparwyr addysg gan

gynnwys colegau a phrifysgolion wneud cais am Arian Adfywio Cymunedol y DU.  Roedd angen gwneud cais erbyn dydd Gwener 21 Mai a byddai’r ceisiadau’n cael eu hasesu a’u rhoi ar restr fer i’w chyflwyno i Lywodraeth y DU erbyn 18 Mehefin 2021.

Mae Cyngor Casnewydd hefyd yn ystyried prosiectau posibl a allai elwa o'r Arian Lefelu a chaiff ceisiadau eu cyflwyno i Lywodraeth y DU erbyn 18 Mehefin 2021.

Roedd Cyngor Casnewydd a'i bartneriaid yn parhau i gefnogi trigolion sy'n byw yng Nghasnewydd gyda Chynllun Preswylydd Sefydlog yr UE cyn y dyddiad cau ar 30 Mehefin. Dylai unrhyw un nad yw wedi gwneud cais wneud hynny ac annog ei ffrindiau a’i berthnasau i wneud hynny hefyd.  Cynigiodd y Cyngor gyngor ac arweiniad i'r rheiny a oedd â phryderon a/neu a oedd angen cymorth pellach i wneud cais.

Roedd y Cyngor wedi gweld cynnydd yn nifer yr unigolion / teuluoedd na allant fanteisio ar Arian Cyhoeddus ac y mae angen cymorth arnynt.  Roedd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i gefnogi'r rheiny a oedd yn cyflwyno eu hunain i'r Cyngor i sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Rhoddodd y tabl yn Atodiad 1 yr adroddiad fanylion llawn y meysydd a gwmpesir gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Penderfyniad:
Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad a nododd ymateb y Cyngor i Brexit.

7 **PSB Summary**

8 **RHAGLEN WAITH Y CABINET AR GYFER 2021-2022**

Yr Arweinydd i gyflwyno’r adroddiad i’r Cabinet.

Dyma'r adroddiad misol rheolaidd ar y rhaglen waith, a gofynnodd yr Arweinydd i’w cydweithwyr dderbyn y rhaglen wedi’i diweddaru.

Penderfyniad:
Cytunodd y Cabinet ar Raglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mehefin 2021 a mis Mehefin 2022.

9 **Live Event**